







GWCT Cymru
Lleoliad Gwaith Myfyriwr 2027/2028

Cefndir

Mae Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt (GWCT) yn elusen ymchwil a chadwraeth bywyd gwyllt annibynnol yn y DU, a sefydlwyd yn 1931 yn Lloegr. Trwy ymchwil sy'n cael ei harwain gan wyddoniaeth, mae'r GWCT yn gweithio gyda ffermwyr, rheolwyr tir, ceidwaid helwriaeth, llunwyr polisi ac ymarferwyr cadwraeth i ddatblygu atebion ymarferol sy'n cefnogi bioamrywiaeth a defnydd cynaliadwy o dir ar draws tir amaethyddol, ucheldiroedd, coetiroedd a gwlypdiroedd. Mae GWCT Cymru yn cyflawni prosiectau ymchwil, cynghori ac arddangos ledled Cymru, gan helpu i wella'r gwaith o reoli bywyd gwyllt, cynefinoedd ac adnoddau naturiol, wrth gefnogi systemau ffermio gwydn a chymunedau gwledig.

Y Lleoliad Gwaith

Rydym yn cynnig un lleoliad myfyriwr gyda GWCT Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2027/28. Gellir ymgymryd â'r lleoliad am hyd at 12 mis (neu am gyfnod byrrach os bydd eich cwrs yn gofyn am hynny) ac mae'n cynnig cyfle unigryw i ennill profiad ymarferol mewn ymchwil cadwraeth a rheolaeth bywyd gwyllt ledled Cymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio ochr yn ochr â thîm GWCT Cymru dan arweiniad y Cyfarwyddwr, Lee Oliver, ar amrywiaeth o brosiectau sy'n canolbwyntio ar gadwraeth bywyd gwyllt a chynefinoedd. Mae'r dyletswyddau'n debygol o gynnwys arolygon ecolegol maes, asesiadau cynefinoedd, monitro bywyd gwyllt, rheoli a dadansoddi data, mapio GIS, ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu gwyddonol. Bydd cyfleoedd hefyd i ennill profiad gyda thechnolegau newydd megis dronau a chymwysiadau deallusrwydd artiffisial ar gyfer monitro ecolegol.
Caiff y lleoliad ei gyflawni'n bennaf drwy gyfuniad o weithio o bell a gwaith maes ledled Cymru. O ganlyniad, bydd angen i fyfyrwyr drefnu eu llety eu hunain yng Nghymru mewn lleoliad y cytunir arno ar y cyd â GWCT Cymru, er y byddwn yn ceisio cynorthwyo gyda hyn lle bo hynny'n bosibl.

Bydd llawer o'r rôl yn cynnwys gwaith maes awyr agored, yn aml mewn lleoliadau anghysbell ac mewn amodau tywydd amrywiol. Felly, rydym yn chwilio am fyfyrwyr brwdfrydig a llawn cymhelliant sydd â diddordeb cryf mewn cadwraeth ac ecoleg, ac sy'n gyfforddus yn gweithio yn yr awyr agored ac fel rhan o dîm bach a chyfeillgar.
Darperir lwfans o £131 yr wythnos. Bydd hyfforddiant a chefnogaeth ar gael drwy gydol y lleoliad, a byddai profiad blaenorol neu ddiddordeb mewn arolygu bywyd gwyllt, adnabod adar, GIS, dadansoddi data, cyfathrebu, dronau neu offer deallusrwydd artiffisial yn fantais, ond nid yw'n hanfodol.

Dylai ymgeiswyr fod yn hyddysg yn y defnydd o gymwysiadau Microsoft Office ac yn gallu dangos sgiliau trefnu cryf a sylw da i fanylion. Mae trwydded yrru lawn y DU yn ofynnol cyn dechrau'r lleoliad, a byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais.

Sut I wneud cais

I wneud cais, anfonwch CV a llythyr eglurhaol yn nodi pam mae gennych ddiddordeb yn y lleoliad. Hefyd, trefnwch i'ch tiwtor anfon geirda at y cyswllt isod erbyn 10 Ionawr 2027. Cynhelir cyfweliadau ar-lein yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror 2027.

Contact

Kaylee Fay
Swyddog Prosiect Gwlad y Gylfinir
kfay@gwct.org.uk
07545660086